

Llwybr Daearegol Cribarth

Chwareli a chreigiau,
plygiadau a holltau

TAITH CERDDED
GEOPARC

FFOREST FAWR
GEOPARK

Llwybr cerdded 5.25 cilometr / 3.25 milltir sy'n archwilio llethrau creigiog bryn trawiadol sy'n codi uwchlaw Parc Gwledig Craig-y-nos yn rhan uchaf Cwm Tawe. Mae'r tirwedd yma wedi ei gerfio o haenau plygedig o dywodfaen a chalchfaen gan ddŵr a rhew. Mae hanes o chwarela yn ychwanegu manylion a drama i'r olygfa.

Cychwyn Barc Gwledig Craig-y-nos (cyfeirnod grid OS SN 839155) (cod post SA9 1GL)
Dringo 250m / 800 troedfedd
Hyd Tua 3.5 awr er mwyn mwynhau'r daith yn iawn
Map 'Explorer' AO OL12 'PCBB ardal gorllewinol'
Mae'r tir drwy'r coetir yn serth. Mae nifer o adrannau'n dilyn rhannau gadawedig neu anorffenedig o'r lein fach ddiwydiannol o'r 19eg ganrif sy'n golygu ei bod yn gymharol rwydd i gerdded yma.
Rhybudd Mae rhannau o'r mynydd yn beryglus oherwydd y ddaear serth a'r cerrig rhydd, er bod y llwybr yma'n dilyn ffordd cymharol ddiogel. Mae rhai adrannau o'r llwybr yn wlyb. Gall creigiau fod yn lliethrig, yn enwedig wedi iddi lawio - cymerwch ofal!



Cymerwch ffordd yr A4067 i fyny Cwm Tawe i gyrraedd Parc Gwledig Craig y no ar ôl 16 milltir/26 munud. Parcio talu ac arddangos.

Gall staff gwybodaeth yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol ger Aberhonddu (ac mewn canolfannau tymhorol eraill ym Mhontneddfechan a Llanymddyfri) eich cynghori ar brynu mapiau manwl o'r ardal i gerddwyr. Ewch at www.beacons-npa.gov.uk/shop

BANNAU
BRYCHEINIOG
EIN PARC CENEDLAETHOL



DECHRAU

wrth adael y maes parcio, trowch i'r chwith ar hyd y ffordd fawr. Cymerwch ofal o'r traffig wrth ichi gerdded tua'r de am tua 350m. Gyferbyn â'r gilfan fawr ar y chwith fe welwch giât sy'n arwain at llwybr llydan.

Unwaith I chi fynd drwy'r giât, arhoswch i edrych ar y creigiau a'r dramiau sydd i'w gweld yma.

1 Dilynwch y llwybr drwy'r coed ac, ar ôl 90m, trowch i'r dde yn siarp I fynny llwybr troed culach gyda grisiau mewn mannau.



Arhoswch i fwynhau'r olygfa i fyny dyffryn Tawe ger man agored wrth y ffens.

Ewch ymlaen yn fwy serth wrth ymyl ffens i gamfa ysgol.

Cafodd pen uchaf Cwm Tawe ei gerfio gan rew trwy'r Hen Dywodfaen Coch. Fe welir blociau o'r graig yma ar hyd y llwybr. Mae eu lliw gwinau-frown yn cyferbynnu gyda lliw llwyd y Calchfaen Carbonifferaidd sy'n ffurfio creigwely'r llechwedd yma.

2 Twch i'r dde i ddilyn llwybr, sy'n ddigon garw mewn mannau, gan ddilyn y wal / ffens am dros 400m. Wrth ichi ddringo i lawr cwpwl o adrannau creigiog, sylwch sut y mae'r gwelyau o galchfaen yn cwmpo'n serth tua'r gogledd-orllewin (gweler llun y clawr). Wrth ichi gyrraedd at giât ar y dde, mentwrch ychydig (tua 50m) i fyny'r llethr glaswelltlog ar y chwith i gymryd golwg agosach ar y creigiau.



Yn wahanol i'r creigiau a basioch ynghynt, mae'r calchfaen yma bron yn l lowreddol ac yn cynnwys lympiâu o graig wahanol ynddo.

Gelwir y rhain yn **siertiau**, math o silica sy'n weddol debyg i fflint, a lanwodd dyllau a grëwyd gan organebau pan oedd y creigiau hyn yn dal i fod yn waddodion meddal.



3 Ewch yn ôl at y ffens / wal a'i dilyn i'r chwith am 100m wrth iddi ddechrau dringo tyle byr. Hanner ffordd i fyny'r tyle fe groeswch chi 'ffos' arw yn rhedeg ar ongl sgwâr.

Tyllau'n llawn siert yn y calchfaen.

Mae'r rhain yn hen weithiau mwyn o'r 19eg ganrif. Roedd y 'siâl calchfaen' gwreiddiol wedi hindreulio dros filiynau o flynyddoedd i greu pwdraen gafodd ei gloddio gymaint ar hyd y brigiad yma, at ddefnydd fel polish diwydiannol, fel na welir unrhyw ôl ohono heddiw. Fe welwch y twmpathau a'r pantiau a adawyd ar ôl gan y gwaith yma a thraw yn ystod y daith hon.



Gwelyau amlwg o Dywodfaen Twrch yn cwmpo'n serth tua'r Gogledd-orllewin i'r dde

Yn union uwchlaw'r olion gwaith yma, ceir blociau gwasgarog a brigiadau o'r creigwely sy'n **Dywodfaen Twrch**. Ar ben y tyle, mae olion **'ty-unnos'**, adeilad a godwyd ar frys, wedi eu hadeiladu i mewn i'r wal. Mae rhes amlwg o Dywodfaen Twrch sy'n cwmpo'n serth iawn yn rhedeg draw i'r chwith.

4 Gan ddilyn brigiad y graig yma, dilynwch ael y grib lydan yma tua'r de-orllewin i fwrdd oddi wrth y wal/ffens, gan basio pwll bas ar y chwith ar ôl 250m wrth i'r grib ymledu. Fe ddewch at ffordd arw wedi 100m arall - gweddillion lein fach.



5 Trowch i'r dde, gan ddilyn y ffordd droellog am 100m wrth iddi gwympo i mewn i geunant sy'n torri ar ei thraws.

Gwelir y brig pell Hen Dywodfaen Coch of Fan Gyhirych i lawr rigol

Crëwyd y ceunant gan chwarela am 'garreg silica' yn y 19eg ganrif, wedi ei malu'n ddarnau mân yn yr ardal yma trwy smudiad ar hyd ffawt ddaearogol sy'n torri o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin trwy'r ardal, olygodd ei bod yn haws i'w chloddio gyda'r arfau llaw oedd ar gael i'n cyndeidiau.

Ewch ymlaen am 100m arall yr ochr draw i'r ceunant at sticil a giât yn y ffens / wal o'ch blaen.

O'r fan yma gallwch ddilyn llinell y lein fach anorffenedig gyda'ch llygad wrth iddi droi tua'r dde. Cafodd ei gosod i sicrhau mynediad i ardal eang ble y gweithiwyd ar y pwdraen, er na chwblhawyd y lein fach etoed. Gallwch hefyd weld nifer o lyncdyllau, bach a mawr, sy'n dangos bod y calchfaen oddi tano wedi bod yn ymdoddi.

6 Ewch yn ôl yr un ffordd ar draws y ceunant i'r fan ble yr ymunoch â'r lein fach (5). Arhoswch arni wrth iddi droi i fyny tua'r dde ac yna'n ôl i'r chwith.

Sylwch ar ragor o waith pwdraen i lawr tua'r chwith islaw'r lein fach cyn cerdded trwy gae o feini Tywodfaen Twrch wedi eu gwasgaru i lawr y bryn o'r gamedd ar y copa uwchlaw.

Mae'r lein fach anorffenedig yn lefelu yma cyn ymuno â'r hen lein fach arall sy'n dod i fyny o'r chwith. Ewch ymlaen yr ochr draw at gyffordd y ddwy lein fach ac i fyny 50m pellach i ardal fechan o'r llechwedd sydd wedi ei chloddio, yn union o dan y bryncyn caregog, sef copa Cribarth (428m uwchlaw lefel y môr).



Sylwch ar y gwelyau o galchfaen yn cwmpo i lawr i'r cyfeiriad y daethoch ohono.

Ceir mwy o wybodaeth am y llwybr ar www.geoparcyfforestfawr.org.uk



7 Ewch yn ôl y ffordd ddaethoch chi am 50m a chymryd y ffordd i'r dde ble mae'r ddwy lein fach yn gwahanu, gan aros ar y llwybr sail cul yma a dorwyd yn y llechwedd am 400m ne cyrraedd chwarel fechan sydd wedi ei thorri yn ôl ychydig ar y dde.



Mae wal gefn lefn y chwarel yn blân ffawt.

8 Ewch ymlaen heibio'r chwarel a, gyda chwarel fwy i'r chwith, ewch i lawr at un lein fach i ddechrau ac yna i lawr eto at ail un. **Peidiwch â mynd ymhellach - mae'r tir yn llawer mwy serth!**

Cafodd creigiau Cribarth, arferai fod yn llorweddol, eu plygu 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Cafodd y creigiau eu hollti'n sylweddol yn y broses, gan eu gwneud yn haws i'w cloddio gydag offer llaw.

9 Trowch i'r chwith ar hyd yr ail lein fach yma, gan ei dilyn tua'r gogledd-ddwyrain am tua 500m cyn iddi gyrraedd y chwarel nesaf.

Mewn cwpwl o fannau, mae'r lein fach yn pasio trwy hafnau bas - cadwch lygad am flociau o'r Tywodfaen Crwybrog, gwely main o dywodfaen yn y calchfaen.

Tywodfaen Crwybrog mewn torri tramffordd.



Cofiwch gadw at ay Cod Cefn Gwlad

Caiff y tir yma'i bori gan ddefaid a cheffylau - cofiwch gadw eich cŵn dan reolaeth.



Wrth ichi ddilyn y lein fach yma, sylwch sut y mae goleddf strata'r graig wedi newid - rydych bellach ar ochr dde-ddwyrainol priif anticlin Cribarth. Mae'r creigiau'n cwmpo'n serth tua'r de-ddwyrain yn groes i'r arosfannau cynharach, ble roeddent yn cwmpo tua'r gogledd-orllewin.

Mae'r anticlin yn than o Gylchfa Fawtio-Plygu Cribarth, cyfres o ffawtiau a phlygiadau daearegol sylweddol sy'n ymestyn o Fae Abertawe tua'r gogledd-ddwyrain i fyny Cwm Tawe, trwy'r bryn yma ac ymlaen am Aberhonddu.

10 Ewch ymlaen heibio'r chwarel yn yr un cyfeiriad ac, wrth ichi anelu i lawr y llethr glaswelltog, daw'r wal / ffens y gwnaethoch ei dilyn yn gynharach, i'r golwg. Anelwch am y sticil-ysgol y dringoch drosti'n gynharach. Ewch yn ôl i lawr yr un llwybr serth am y ffordd. Cymerwch ofal! Mae'n fwy llithrig wrth fynd ar i lawr! Ewch yn ôl i'r Parc Gwledig, gan gymryd gofal o'r traffig ar y ffordd.

Mae'r cyfleusterau ym Mharc Gwledig Craig-y-nos yn cynnwys:


- Maes parcio talu ac arddangos
- Toiledau
- Caffi
- Teithiau cerdded
- Arddangosfeydd y geoparc a'r parc cenedlaethol

Ceir mwy o wybodaeth ar www.breconbeacons.org/craig-y-nos-country-park

Mae Geoparc Forest Fawr yn ddiolchgar i Ganolfan Ogofâu Arddangos Cenedlaethol Cymru am gael defnyddio'r llwybr drwy'r goerdwlg.

Allwedd / Key

- Llwybr Cribarth / Cribarth Trail
- Llwybrau, traciau / paths, tracks
- Esgyniadau serth / steep ascents
- Ffyrdd & adeiladau / roads & buildings
- Maes parcio (T&A) / car park (P&D)
- Hen dramffyrdd / old tramroads
- Coed, llyncdwl / woods, shakehole
- Chwareli / quarries
- Muriau, ffensys / walls, fences
- Copa, pant llydan / summit, broad hollow




Lluniau o'r awyr © Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru / Aerial images © Crown copyright: Royal Commission on the Ancient & Historical Monuments of Wales.

Mae'r croestoriad yma'n dangos y creigiau o dan eich traed wrth i chi ddringo'r incln tua'r gogledd-ddwyrain o'r man cychwyn. Mae'r graig hynaf a welir ar yr wyneb ar y daith yw'r Calchfaen Carbonifferaidd a ddyddodwyd oddeutu 350 miliwn o flynyddoedd yn ôl mewn moroedd trofannol. Y rhai ieuengaf yw cerrig llaid a thywodfeini'r Cysraddau Glo a ffurfiwyd mewn deltâu afonydd oddeutu 310 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

BELOW This cross-section shows the rocks under your feet as you ascend the incline northeast from the start. The oldest rock seen at the surface on the walk is the Carboniferous Limestone laid down around 350 million years ago in tropical seas. The youngest are the Coal Measures mudstones and sandstones formed in river deltas around 310 million years ago.

UCHOD 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl, perodd prysedd ochrol i haenau'r graig blygu a hollti. Golygai'r craciau hyn fod calchfeini'r Cribarth yn haws eu cloddio na chreigiau gorweddol mewn mannau eraill.

LEFT Three hundred million years ago, lateral pressure caused rock layers to fold and crack. These cracks made Cribarth's limestones easier to quarry than flat-lying rocks elsewhere.



Mae map daeareg syml newydd o Geoparc y Forest Fawr ar gael gan Ganolfannau Gwybodaeth y Parc Cenedlaethol i'ch helpu i ddeall y dirwedd rydych yn cerdded drwyddi.